

## Arweiniad i leoliadau nas cynhelir: gwirio cywirdeb ffeithiol

Ionawr 2019



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ neu drwy anfon e-bost at [agc@llyw.cymru](mailto:agc@llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill ar gael ar ein gwefannau:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

## **Beth yw ei ddiben?**

Rhoi arweiniad i leoliadau ar wirio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad arolygu yn dilyn arolygiad.

## **I bwy mae'r arweiniad wedi'i fwriadu?**

Yr holl leoliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ysgolion sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser ac sy'n darparu gofal i blant hyd at ddeuddeg oed.

## **O ba bryd ddylai'r arweiniad gael ei ddefnyddio?**

O Ionawr 2019 ymlaen.

## **Cynnwys**

## **Tudalen**

<b>Cefndir</b>	<b>1</b>
<b>Beth sy'n digwydd ar ôl yr arolygiad</b>	<b>1</b>
<b>Beth ddylai'r lleoliad ei wneud</b>	<b>1</b>
<b>Beth fydd Estyn ac AGC yn ei wneud</b>	<b>2</b>
<b>Mynd i'r afael â gwallau ffeithiol</b>	<b>2</b>
Egluro camddealltwriaethau	2
Ymateb pan fydd y gwiriad ffeithiol yn dechrau herio canfyddiadau neu farnau arolygu	2
Ymateb i gyfuniad o faterion	3
<b>Yn achos pob ymateb yn sgil gwirio cywirdeb ffeithiol</b>	<b>3</b>
<b>Diwedd proses y gwiriad ffeithiol</b>	<b>3</b>

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad i leoliadau ar ffocws penodol y gwiriad cywirdeb ffeithiol. Hefyd, mae'n egluro sut bydd Estyn ac AGC yn ymateb i unrhyw faterion mae'r lleoliad yn eu codi drwy'r broses arolygu ar y cyd.

Mae Estyn ac AGC yn disgwyl i bob adroddiad arolygu fod yn ffeithiol gywir ac amlinellu canfyddiadau'r arolygiad a'r naratif, gan esbonio barnau'n glir ac yn ddiamwys.

Fel arfer, mae adroddiadau Estyn ac AGC yn cyflwyno'u canfyddiadau yn gywir. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gall gwall ffeithiol godi mewn adroddiad drafft neu gall y lleoliad amgyffred nad yw'r adroddiad yn cyfleu'r canfyddiadau'n glir. Rydym yn cydweithio â lleoliadau trwy gydol y broses o wirio cywirdeb ffeithiol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr arolygiad

Ar ôl pob arolygiad ar y cyd ac ymweliad dilynol, mae canfyddiadau'r arolygiad yn mynd trwy broses drylwyr o olygu, safoni a dilysu yn Estyn ac AGC (proses sicrhau ansawdd adroddiadau (SAAAd)).

Cyn i Estyn ac AGC gyhoeddi adroddiad arolygiad ar y cyd, byddwn yn anfon drafft hwyr o'r adroddiad arolygu i'r lleoliad, drwy'r e-bost. Yna, mae gan y lleoliad 5 niwrnod gwaith i ddarllen yr adroddiad a rhoi gwybod i ni p'un a oes unrhyw gamgymeriadau ffeithiol yn yr adroddiad.

## Beth ddylai'r lleoliad ei wneud

Ar ôl derbyn yr adroddiad, mae angen i'r lleoliad ddarllen yr adroddiad yn fanwl a chanolbwyntio ar amlygu unrhyw wallau ffeithiol.

Yn gyffredin, bydd lleoliadau yn sylwi ar bethau fel ffeithiau rhifiadol sy'n anghywir, er enghraifft cyfran y plant y mae'r lleoliad wedi nodi bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. O dro i dro, gall yr adroddiad ddefnyddio ymadrodd nad yw'n gwbl gywir, er enghraifft gall ddefnyddio 'unigolyn cyfrifol' pan mai 'person cofrestredig' ydyn nhw.

Yn eu hymateb i Estyn ac AGC, dylai lleoliad restru unrhyw wallau ffeithiol a darparu'r wybodaeth gywir i'r Arolygydd Arweiniol ystyried ei chynnwys yn nrafft terfynol yr adroddiad arolygu.

Hefyd, dylai lleoliadau sicrhau bod eu hymateb i'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar faterion ffeithiol yn hytrach na materion sy'n ymwneud â barnau. Ni allwn dderbyn cwynion am, na heriau i, farnau a luniwyd am leoliad fel rhan o arolygiad neu adolygiad. Ymdrinnir ag unrhyw gŵynion am ymddygiad arolygwyr

neu'r broses arolygu trwy bolisi'r arolygiaeth berthnasol ar drin cwynion.

## **Beth fydd Estyn ac AGC yn ei wneud**

Ar ôl inni dderbyn ymateb i'r gwiriad ffeithiol gan y lleoliad, bydd y Cydlynnydd Arolygu (CydAr) yn cydnabod derbyn yr e-bost. Rydym bob amser yn ddiolchgar pan fydd lleoliadau yn cymryd amser i ddarllen drwy'r adroddiad drafft.

Bydd yr Arolygydd Arweiniol yn ystyried yr ymateb yn ofalus ac yn anfon ymateb drwy'r e-bost at y CydAr, a fydd yn anfon y testun ymlaen i'r lleoliad.

## **Mynd i'r afael â gwallau ffeithiol**

Mae ffocws manwl y gwiriad ar gywirdeb ffeithiol. Pan fydd y newidiadau sy'n cael eu hawgrymu gan y lleoliad yn syml ac yn ddi-ddadl, bydd yr Arolygydd Arweiniol yn aml yn gallu derbyn yr awgrymiadau a gwneud y newidiadau priodol i ddrafft terfynol yr adroddiad, y bydd Estyn ac AGC yna'n ei gyhoeddi ar ei wefan.

Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r lleoliad unigol mor gywir â phosibl.

## **Egluro camddealltwriaethau**

Weithiau yn eu hymateb, bydd lleoliadau yn codi materion sy'n awgrymu wrth yr Arolygydd Arweiniol fod camddealltwriaeth neu ddiffyg eglurder wrth gyfleu canfyddiadau'r adroddiad. Pan fydd yr Arolygydd Arweiniol yn cytuno â'r lleoliad, mae'n bosibl y gall yr Arolygydd Arweiniol gynnig rhywfaint o eglurhad sydyn i esbonio'r canfyddiadau ymhellach. Lle y bo'r Arolygydd Arweiniol yn ystyried hynny'n briodol, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd Arweiniol hefyd yn gallu diwygio testun yr adroddiad i ddatrys unrhyw gamddealltwriaeth heb newid hanfod unrhyw ganfyddiadau na barnau'r arolygiad.

## **Ymateb pan fydd y gwiriad ffeithiol yn dechrau herio canfyddiadau neu farnau arolygu**

Weithiau, bydd lleoliadau yn ceisio defnyddio'r cyfle a roddir gan y gwiriad ffeithiol i herio elfennau eraill o'r adroddiad, er enghraifft y barnau neu'r canfyddiadau.

Pan fydd lleoliadau yn codi materion nad ydynt yn gwbl ffeithiol ac yn codi'n unig o ganlyniad i gamddealltwriaeth neu ddiffyg eglurder yn yr adroddiad, ni fydd yr Arolygydd Arweiniol yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Pan na fydd yr ymateb yn ymwneud â chywirdeb ffeithiol neu ni ellir ymdrin â'r ymateb fel pe bai'n gamddealltwriaeth, mae y tu hwnt i gwmpas proses y gwiriad ffeithiol.

### **Ymateb i gyfuniad o faterion**

Weithiau, bydd lleoliad yn codi cyfuniad o faterion. Gall fod yn bosibl i'r Arolygydd Arweiniol ymateb i rai o'r rhain (e.e. gwallau ffeithiol neu gamddealltwriaethau), ond gall fod yn amhriodol i'r Arolygydd Arweiniol ymateb i eraill (e.e. pan fydd yr ymateb wedi crwydro i faterion sy'n ymwneud yn fwy â'r barnau neu'r canfyddiadau).

Yn yr achosion hyn, bydd yr Arolygydd Arweiniol yn ystyried yr ymateb gan y lleoliadac yn ceisio nodi'r materion sy'n ymwneud â gwallau ffeithiol, y rhai sy'n ymwneud â chamddealltwriaeth a'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r ystyriaethau hynny ac sydd, felly, y tu hwnt i gwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol.

Yna, bydd yr Arolygydd Arweiniol yn ceisio mynd i'r afael â'r gwallau ffeithiol ac unrhyw gamddealltwriaethau yn ei ymateb i'r ysgol/darparwr.

Pan fydd y camddealltwriaethau yn gynhennus, gall Arolygydd Arweiniol bob amser ymgynghori ag arolygwyr arweiniol y sector, y swyddogion arweiniol ar gyfer polisïau arolygu a sicrhau ansawdd, a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn Estyn neu reolwyr tîm, uwch reolwyr tîm neu'r Pennaeth Gofal Plant a Chwarae yn AGC.

Hefyd, bydd yr Arolygydd Arweiniol yn cyfeirio'r lleoliad at arweiniad Estyn/AGC ar weithdrefnau delio â chwynion ac yn awgrymu bod yr ysgol/y darparwr yn codi unrhyw faterion heb eu datrys trwy'r llwybr hwnnw.

### **Yn achos pob ymateb yn sgil gwirio cywirdeb ffeithiol**

Ar ôl i Estyn ac AGC dderbyn ymateb gan y lleoliad yn sgil gwirio ffeithiau, dylai'r Arolygydd Arweiniol bob amser ateb gydag ymateb priodol.

Dylai'r Arolygydd Arweiniol anfon ymateb at y CydAr perthnasol er mwyn iddo anfon e-bost i'r lleoliad.

Mae'n bwysig bod Arolygydd Arweiniol yn defnyddio'r CydAr fel pwynt cyswllt â lleoliadauar ôl arolygiadau fel y gallwn gadw cofnod clir o'r broses ôl-arolygiad.

### **Diwedd proses y gwiriad ffeithiol**

Fel arfer, bydd y lleoliad yn cael yr adroddiad drafft ar gyfer y gwiriad ffeithiol wythnos neu ddwy cyn dyddiad cyhoeddi statudol yr adroddiad. Bydd yr Arolygydd Arweiniol yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw wall ffeithiol neu gamddealltwriaeth mor gyflym â phosibl fel y gall Estyn ac AGC gyhoeddi'r adroddiad arolygu ar eu gwefannau ar y dyddiad cyhoeddi.

Os na chawn ymateb gan y lleoliad o fewn 5 niwrnod, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad yw'r lleoliad wedi amlygu unrhyw wallau ffeithiol yn yr adroddiad ac, ar sail hynny, byddwn yn bwrw ymlaen â chyhoeddi'r adroddiad ar y dyddiad cyhoeddi statudol.

Fel arfer, byddwn yn parhau i gyhoeddi'r adroddiad arolygu ar y dyddiad statudol hyd yn oed os bydd materion heb eu datrys, y mae'r gweithdrefnau delio â chwynion yn ymdrin â nhw.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu'n derfynol beth i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad arolygu.